Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Chwefror 2019

Amser: 13.30 – 15.54

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5267

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Nick Ramsay AC (Cadeirydd) Mohammad Asghar (Oscar) AC Neil Hamilton AC Vikki Howells AC Rhianon Passmore AC Adam Price AC Jenny Rathbone AC
Tystion:	Geoff Ryall-Harvey, Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru Mark Thornton, Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru Garth Higginbotham, Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru:	Adrian Crompton – Archwilydd Cyffredinol Cymru Matthew Mortlock Mike Usher
Staff y Pwyllgor:	Fay Bowen (Clerc)

	Meriel Singleton (Ail Glerc) Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) Stephen Boyce (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

2.1 Rheoli meddyginiaethau: Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (17 Ionawr 2019)

3 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Sesiwn Dystiolaeth gyda Chyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru

3.1 Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan Geoff Ryall-Harvey, y Prif Swyddog; Mark Thornton, y Cadeirydd, a Garth Higginbotham, Is-Gadeirydd Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru fel rhan o'u hymchwiliad i'r hyn a ddysgwyd yn sgil Adolygiad Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

3.2 Cytunodd Geoff Ryall-Harvey i anfon rhagor o wybodaeth ynghylch:

- Y rhaglen o ymweliadau â chyfleusterau iechyd meddwl ers mis Mai 2017 ynghyd ag unrhyw adroddiadau perthnasol;
- Data sy'n ymwneud â nifer y staff asiantaeth a gyflogir gan wasanaethau iechyd meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; a
- Chopi o adroddiad y Cyngor Iechyd Cymuned, *Ein Bywydau ar Stop*.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law.

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

6 Gwasanaeth gofal sylfaenol y tu allan i oriau: Adborth ar waith ymgysylltu'r Aelodau gyda gwasanaethau y tu allan i oriau

6.1 Trafododd yr Aelodau eu hymweliadau diweddar â gwasanaethau y tu allan i oriau.

7 Craffu ar Gyfrifon 2017-18: Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Trafododd yr Aelodau benodau terfynol yr adroddiad drafft gan nodi y byddai fersiwn ddiwygiedig yn barod i'w thafod ymhellach yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 11 Chwefror.

8 Cynllun tocynnau bws rhatach Llywodraeth Cymru i bobl ifanc - Fy Ngherdyn Teithio: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

8.1 Trafododd yr Aelodau adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ac ymateb Llywodraeth Cymru, gan gytuno i gynnal sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru.

9 Gwariant ar staff asiantaeth gan GIG Cymru: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

9.1 Trafododd yr Aelodau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a nododd y byddai'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn edrych ar gostau staff asiantaeth fel rhan o'r gwaith o graffu ar bob bwrdd iechyd dros y flwyddyn nesaf. Cytunodd yr Aelodau i gadw llygad ar y mater hwn.